Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Lynne Neagle AC - Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Russell George AC - Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

8 Mawrth 2018

Annwyl Lynne a Russell,

**Rhaglen Hwb Llywodraeth Cymru**

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Sesiwn Ragarweiniol gyda Tracey Burke ar 15 Ionawr, y Cyfarwyddwr Cyffredinol gyda chyfrifoldeb dros Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth honno, buom yn trafod elfennau codio Rhaglen Hwb Llywodraeth Cymru - (gwefan a chasgliad o offer ar-lein a ddarperir i bob ysgol yng Nghymru). Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, mae Tracey Burke wedi darparu gwybodaeth ychwanegol am y Rhaglen hon ac yn benodol Cracio'r Cod a'r Peilot Minecraft ar gyfer Addysg (Rhan D y llythyr atodedig).

Ystyriodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr ymateb ar 26 Chwefror a mynegodd bryder nad yw graddfa gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn ymddangos yn ddigonol o ystyried yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau bod yr her ddigidol yn cael ei bodloni. Ymddengys bod diffyg uchelgais o fewn Llywodraeth Cymru i gyflawni yn y maes hwn. Er enghraifft, mae cynllun peilot y fenter Minecraft ar gyfer Addysg ar hyn o bryd yn cynnwys dim ond 10 ysgol, ac mae'r prosiect Cracio'r Cod ond wedi derbyn £1.3M ar gyfer Tymor y Cynulliad hwn ynghyd â £930K pellach ar gyfer Technocamps. Mae'r niferoedd hyn yn rhy fach o'u cymharu â nifer yr ysgolion yng Nghymru.

Mae Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn credu bod datgysylltiad dwys o ran graddfa'r hyn sy'n cael ei wneud a'r hyn a ddylai ddigwydd, ac yn ystyried y gallai hyn fod yn faes o ddiddordeb i'ch Pwyllgorau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech

ystyried amserlennu'r maes hwn yn eich rhaglenni gwaith/craffu rheolaidd ar Ysgrifenyddion y Cabinet a rhoi gwybod i mi am y canlyniad.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Cyfarwyddwr Cyffredinol
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Gwasanaethau
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Chwefror 2018

Annwyl Mr Ramsay

**Cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - 22 Ionawr 2018 - Camau Gweithredu Dilynol**

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'ch cais am wybodaeth ychwanegol, yn dilyn sesiwn y Pwyllgor ar 22 Ionawr 2018 ar y Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae'r wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani wedi'i nodi isod.

**A. A gafodd sefydliadau'r trydydd sector eu gwahodd i gymryd rhan yn y gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y broses o ddatblygu'r prosiect Braenaru**

Gwahoddwyd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Cymorth Cymru i holl gyfarfodydd y prosiect braenaru hyd yma, ac roeddent yn bresennol ynddynt. Cymerodd sefydliadau'r trydydd sector hefyd ran yn y gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r prosiect alinio, gan gynnwys Barnardos a Cymorth.

**B. Y grantiau sy'n rhan o'r grant integredig sengl arfaethedig**

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n ystyried creu Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth sengl newydd yn 2019-20 ac rydym yn gweithio i dreialu'r trefniadau grant newydd mewn saith awdurdod lleol yn 2018-19. Y Grantiau a gynhwyswyd ar gyfer 2018-19 yw:

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

- Cefnogi Pobl
- Dechrau'n Deg
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Y Gronfa Waddol
- Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc
- Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt)
- Atal Digartrefedd
- Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (gynt yn rhan o'r Grant Byw'n Annibynnol)
- Cronfa Dydd Gŵyl Dewi
- Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt).

## C. Gwybodaeth ychwanegol am gamau gweithredu i atal digartrefedd

***C1.*** *Beth yw persbectif cyffredinol Llywodraeth Cymru ar y materion a godwyd mewn adroddiad diweddar gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ddigartrefedd, a'r hyn y mae'n ei ddweud am ymateb llywodraeth leol a'i phartneriaid i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?*
***C1a.*** *A yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r argymhellion y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u gwneud, ac a fydd yn cymryd unrhyw gamau ei hun i'w hatgyfnerthu?*

O'n safbwynt ni, roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfle defnyddiol i ddefnyddio gweithrediad Deddf Tai 2014 fel modd o ystyried materion ehangach yn ymwneud â pha mor dda y mae awdurdodau lleol yn gallu rheoli'r galw yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth ac adborth pwysig ar y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol ac rydym yn croesawu'r canfyddiadau a'r argymhellion.

Mae'r adroddiad yn cydnabod pwysigrwydd Deddf Tai (Cymru) 2014 o ran sicrhau bod atal digartrefedd yn ganolog i ddyletswyddau'r awdurdod lleol, a'r arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i gefnogi ei gweithredu. Mae'r holl argymhellion yn rhai ar gyfer awdurdodau lleol a byddwn yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac awdurdodau lleol i helpu i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

Mae ychwanegu £6 miliwn at y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer digartrefedd o 2018-19 ymlaen yn dangos, yn unol ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, bod Gweinidogion yn awyddus i roi'r gwasanaethau hyn ar sylfaen gadarnach, hirdymor.

***C2:*** *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thystiolaeth o ddirywiad mewn gwaith atal llwyddiannus, y nifer cynyddol o bobl mewn llety dros dro a'r risg o loteri cod post wrth ddarparu gwasanaethau?*

Mae ein hystadegau cyhoeddedig yn dangos cynnydd yn nifer yr aelwydydd sy'n cael cymorth ac, felly, nid ydym yn cydnabod bod dirywiad mewn gwaith atal llwyddiannus. Yn erbyn y cynnydd hwn yn y galw am wasanaethau, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn cynnal eu cyfraddau atal. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn cael eu hatal rhag dod yn ddigartref.


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Yn anochel, bydd y cynnydd hwn yn y galw ar wasanaethau digartrefedd statudol wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu rhoi mewn llety dros dro. Fodd bynnag, gallai fod llawer mwy o ffactorau fod yn sail i'r cynnydd hwn, gan gynnwys dull mwy cynhwysol gan awdurdodau lleol i ddarparu llety mewn argyfwng, yn enwedig i bobl nad ydynt o bosibl wedi cael cymorth cyn hynny, o ganlyniad i welliannau i ganllawiau ac ymweliadau cynnydd Llywodraeth Cymru.

Bydd gwerthusiad o Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn edrych ar effaith y ddeddfwriaeth ar ddefnyddio llety dros dro a byddwn yn ystyried unrhyw argymhellion sy'n codi o'r adroddiad.

Fel y nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad diweddar, mae'n wir bod rhai awdurdodau wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill o ran newid y diwylliant a'r agweddau sydd eu hangen er mwyn bod yn wirioneddol ataliol. Mae ein rhaglen ymgysylltu, ein rhwydweithiau a hyfforddiant pellach wedi'i gynllunio yno i'w cefnogi wrth weithredu ysbryd a llythyren y Ddeddf.

***C3.*** *Sut y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio'r £6 miliwn o gyllid ychwanegol y mae'n ei ychwanegu at y grant cymorth refeniw i gefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf?*

Mae'r £6 miliwn ychwanegol wedi'i gynnwys yn y setliad refeniw llywodraeth leol o 2018-19. Mater i bob awdurdod lleol unigol yw penderfynu sut mae'n gwario hyn, ond mae Gweinidogion a swyddogion wedi egluro mai dyma'r arian diogel hirdymor, y galwodd Swyddfa Archwilio Cymru amdano yn ddiweddar, ac y bwriedir iddo gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau atal rheng flaen, fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.

***C3a.*** *Pa fath o newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol eu gwneud wrth adolygu ac ad-drefnu gwasanaethau gyda chymorth y cyllid hwn?*

Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu sut mae'n defnyddio'r cyllid newydd yn y Grant Cynnal Refeniw. Byddwn yn parhau i fonitro cyfraddau atal ac yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol, yn uniongyrchol a thrwy CLlLC, i nodi a rhannu arferion gorau.

Mae £2.8 miliwn o gyllid ychwanegol hefyd yn cael ei sianelu i awdurdodau lleol fel grant refeniw i'w helpu i adeiladu ar eu gwaith atal statudol. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i ddwysáu eu hymdrechion i gyflawni canlyniadau llwyddiannus ar gyfer unigolion a theuluoedd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu heb gartref.

Disgwylir i gynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer y cyllid hwn ganolbwyntio ar wella mynediad i'r sector rhentu preifat; defnyddio ymarfer yn seiliedig ar drawma; cryfhau gwasanaethau i bobl â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau (gan gynnwys gwell cydweithio rhwng tai a gwasanaethau iechyd meddwl/camddefnyddio sylweddau); a chamau i atal digartrefedd ymysg ieuenctid a lleihau achosion o gysgu ar y stryd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

***C3b.*** *Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r bwriad ac nid gwrthbwyso'r pwysau eraill ar gyllid craidd awdurdodau lleol?*

Byddwn yn parhau i fonitro nifer yr aelwydydd sy'n cael eu cefnogi i atal neu leddfu digartrefedd drwy ddulliau casglu data rheoli a chyhoeddi ystadegau cenedlaethol.

Bydd swyddogion yn gweithio gyda llywodraeth leol i sicrhau bod gwasanaethau atal rheng flaen effeithiol yn cael eu darparu, fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. Byddwn yn sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol a phriodol ar waith ar gyfer monitro'r allbwn a'r canlyniadau, gan gynnwys drwy delerau'r grant a'r amodau ar gyfer y £2.8m ychwanegol, yn ogystal ag ymgysylltu'n rheolaidd ag awdurdodau lleol drwy rwydweithiau digartrefedd, gweithgorau a rhaglen ymweliadau ag awdurdodau lleol unigol.

***C3c.*** *Sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol gydgysylltu gwaith ehangach ar atal digartrefedd gyda'r Rhaglen Cefnogi Pobl?*

Mater i awdurdodau lleol yw sut y maent yn trefnu eu gwasanaethau i sicrhau cydweddiad a chydweithio. Fodd bynnag, adlewyrchir pwysigrwydd cymorth yn ein deddfwriaeth digartrefedd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiadau digartrefedd a pharatoi strategaethau i leihau digartrefedd erbyn diwedd 2018. Rhaid i'r adolygiadau a'r strategaethau fynd i'r afael â'r angen am gymorth i atal a lleddfu digartrefedd.

Amlygir rôl grantiau Cefnogi Pobl wrth helpu i atal digartrefedd yn yr adroddiad interim gan Brifysgol Salford ac mae adroddiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys nifer o argymhellion sydd wedi'u hanelu at wella canlyniadau yn y maes hwn, gan gynnwys manteision integreiddio agosach rhwng Cefnogi Pobl a thimau digartrefedd.

Byddwn yn adolygu ein canllawiau digartrefedd statudol yn 2018, a byddwn yn cryfhau'r cyngor ynghylch yr angen am gydweithio agos rhwng timau Cefnogi Pobl a digartrefedd gydag amcanion a gwaith cynllunio ar y cyd. Mae manteision integreiddio gwasanaethau a lleihau 'cyllido mewn seilos' yn sail i'r gwaith o gynyddu hyblygrwydd cyllid a all, yn amodol ar benderfyniad Gweinidogol ar strwythurau grant yn y dyfodol, gynnig cyfleoedd pellach i gydgysylltu gwasanaethau'n fwy effeithiol.

***C4****. Yng nghyd-destun canfyddiadau'r adroddiad am gydweithredu, a yw dosbarthiad cymdeithasau tai - rhywbeth y mae'r Pwyllgor wedi ymchwilio iddo o'r blaen - yn cyflwyno unrhyw heriau penodol o ran sicrhau eu cefnogaeth i waith ehangach ar atal digartrefedd?*

Wrth baratoi'r ddeddfwriaeth ar gyfer dosbarthu cymdeithasau tai, mae swyddogion wedi archwilio'r ddyletswydd i gydweithredu ar atal digartrefedd ac nid ystyriwyd bod hyn yn berthnasol i ddosbarthu. Felly nid yw'r ddyletswydd i gydweithio a gynhwysir yn Neddf 2014 yn newid ac rydym yn fodlon na fydd hyn yn effeithio ar statws Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y dyfodol fel sefydliadau preifat.

**D. Diweddariad ar elfennau codio'r rhaglen Hwb (gwefan a chasgliad o offer ar-lein a ddarperir i bob ysgol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru) a chynnwys**

**gwybodaeth am weithgareddau ar godio addysgu mewn ysgolion yn fwy cyffredinol nid dim ond i'r rhaglen Hwb.**

Lansiwyd *Cracio'r Cod* ein cynllun i wella sgiliau codio fis Mehefin diwethaf. Gydag £1.3 miliwn yn ystod y tymor Cynulliad hwn, rydym yn gweithio gyda chonsortia addysg, busnesau, partneriaid y trydydd sector a phrifysgolion, er mwyn i fwy o ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau hyn cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae'r gallu i 'godio' yn sgil sylfaenol y mae ei hangen ar bob person ifanc er mwyn llwyddo yn yr economi, yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi buddsoddi £930,000 gyda Technocamps i ddarparu gweithdai codio cyfrifiaduron i ddisgyblion ac athrawon yn ein hysgolion. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi eu cais ESF fel y gallant ddarparu rhaglen well ar gyfer pobl ifanc, tra bod ein cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu.

*Dolen i'r datganiad a'r cynllun:*
*http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/crackingcode/?lang=cy*

*Eitem newyddion y BBC yn dilyn adroddiad blynyddol Estyn:*
*http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-42791009*

Nod ein cynllun peilot Minecraft for Education yw ysbrydoli'r rhai sy'n rhoi cynnig ar godio am y tro cyntaf gyda Minecraft Code Builder a defnyddio Minecraft for Education i gefnogi blaenoriaethau allweddol yng Nghymru, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Nodwyd deg ysgol yng Nghymru a chanddynt seilwaith parod ac awydd i gymryd rhan ar y cyd â chonsortia addysg rhanbarthol. Mae amcanion allweddol y cynllun peilot hwn yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o godio ymysg penaethiaid, athrawon, dysgwyr a rhieni ac amlygu'r manteision
- Chwalu'r rhwystrau rhag cymryd rhan mewn gwahardd codio
- Hwyluso profiadau codio
- Ymchwilio i'r effaith yn yr ystafell ddosbarth.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ateb y cwestiynau ychwanegol ac y bydd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk